**Cwestiynau Cyffredin: Uwchgyweirio Cebl Rhwydwaith Trydan SPEN ym Mhenmachno**

**1 Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r gwaith a ddechreuwyd ar ddiweddaru cebl y rhwydwaith trydan ym Mhenmachno gan SP Energy Networks?**

Opus, yw'r contractwyr newydd ar ran SP Energy Networks (SPEN) sy'n cyflawni gwaith i ddiweddaru'r rhwydwaith 33kV ar gyfer Penmachno a Cwm Penmachno. Pwrpas y prosiect yn yr ardal, wrth i ni bontio tuag at Sero Net, yw sicrhau bod gan ein rhwydwaith trydan gapasiti digonol i ymdopi ag unrhyw dechnolegau carbon isel newydd, megis gwefryddion cerbydau trydan, gwres canolog aer neu bwmpiau gwres o'r ddaear a fydd yn cynyddu'r galw am drydan. Mae'r prosiect atgyfnerthu hwn yn hollbwysig i wydnwch a diogelwch y rhwydwaith. O ran Bro Machno, mae ansawdd y cyflenwad trydan wedi'i nodi fel yr ardal waethaf yn rhwydwaith SPEN.

Rydym wedi ymrwymo i gwblhau gwaith a ddechreuwyd gan gontractwyr eraill – ac i wneud y gwaith hwn mor ddiogel ac yn gyflym â phosibl, gyda'r tarfu lleiaf posibl ar drigolion a busnesau lleol. Bu'n rhaid i ni addasu amserlenni'r gwaith am resymau technegol amrywiol, ac rydym yn diolch i bawb yn lleol am eu hamynedd wrth i ni lywio drwy'r broses gynllunio cyn dechrau'r gwaith.

---

**2. Ble'n union mae'r gwaith ffyrdd yn digwydd a beth yw'r dyddiadau dechrau a gorffen?**

Byddwn yn cwblhau'r ardal y tu allan i'r ysgol ar Nos Lun 6ed, Nos Fawrth 7fed, a Nos Fercher 8fed Hydref, yn ystod oriau'r nos yn unig. Bydd yr ardal hon yn ailagor erbyn y bore.

**6ed – 12fed Hydref** – Ffordd Llewelyn (adran goch ar y map isod)

**13eg – 17eg Hydref** –Ffordd Ysbyty – llinell felyn toredig ar y map isod, i'w chwblhau gyda gwaith nos ac adfer erbyn y bore.

**Cwblhau'r gwaith cloddio drwy ganol Penmachno:**

- Bydd angen cau'r ffordd am 7 diwrnod o 6ed Hydref tan ddydd Sul 12fed Hydref
- Bydd Ffordd Llewelyn ar gau yn ystod y cyfnod hwn, gyda gwyriad traffig yn gweithredu trwy Ffordd Topiau
- Bydd llwybr cerdded ar gael i gerddwyr
- Byddwn yn gosod dwythellau ac yn ôl-lenwi wrth fynd, gan leihau maint y ffordd ar gau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen

- Byddwn yn gweithio rhwng 07:00 – 19:00 er mwyn cwblhau'r gwaith cyn gynted â phosibl
- Byddwn yn ceisio cwblhau'r gwaith yn gynt os bydd amodau'r tir yn caniatáu
- Bydd system rheoli traffig gyda staff ar y ffordd wyriad rhwng 7yb a 7yh – cofiwch hyn wrth gynllunio unrhyw deithiau
- Byddwn yn trefnu systemau rheoli traffig trwy Topiau (y llwybr o Ffordd Ysbyty ac i'r gogledd o'r ysgol)




---


**3. Cwblhau'r gwaith a ddechreuwyd ger cyffordd Bron y Waun tuag at yr ysgol**
Bydd hyn yn golygu cau'r adran hon o'r ffordd dros nos rhwng 19:00 – 06:00 gan ddechrau Nos Lun 6ed Hydref. Mae'r lleoliad agosaf at y trigolion, a bydd y tarfu'n lleiaf ar ôl yr ychydig oriau cyntaf y noson honno.

- Bydd yr holl waith yn cael ei gloddio, ei osod â dwythellau, ei ôl-lenwi a'i adfer yr un noson
- Unwaith y bydd yr arwyneb wedi setlo, caiff y rhwystrau a'r cau ffordd eu symud y noson honno
- Amcangyfrifir y bydd hyn yn cymryd 3 noson i'w gwblhau

---

### 4. A fydd HGVs yn gallu defnyddio’r ffordd wyriad trwy Topiau?

Na fydd. Bydd HGVs ac LGVs yn cael gwybod wrth gyffordd Caffi Conwy Falls nad oes ffordd drwodd i gerbydau o’r maint hwnnw ac mai dim ond ar gyfer trigolion lleol y mae mynediad.




### 5. Beth am fynediad i wasanaethau brys yn ystod y cyfnodau hyn?

Rydym wedi cynnal cyfarfodydd gyda’r awdurdodau lleol ynglŷn â hyn a bydd mynediad llawn ar gael i wasanaethau brys.

---

### 6. Beth am fynediad i bobl leol a effeithir gan gau Ffordd Llewelyn mewn perthynas ag ailgylchu a danfoniadau?

Byddwn yn cynorthwyo gydag unrhyw faterion gwastraff gan y bydd gyrrwr cymorth yn bresennol yn ystod y gwaith. Rydym yn gofyn i drigolion dderbyn danfoniadau (deliveries) cyn gynted â phosibl, cyn dechrau’r gwaith ar 6ed Hydref. Os na fydd hyn yn bosibl, byddwn yn darparu llwybr cerdded a bydd y gweithredwyr ar y safle yn helpu lle bo’n bosibl i sicrhau bod y danfoniadau angenrheidiol yn cyrraedd.

---

**7. Sut fyddwch chi'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect?**
Os bydd unrhyw faterion sylweddol i'w hadrodd yn ystod y cyfnod gwaith, byddwn yn postio gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol lleol ym Mhenmachno a Cwm Penmachno. Anogir trigolion lleol ac unrhyw randdeiliaid eraill i gysylltu â ni ar **holi@opusus.co.uk** i ofyn unrhyw gwestiynau pellach.

---

**Gwybodaeth bellach:**
Unwaith y bydd y gwaith cloddio uchod wedi'i gwblhau, bydd angen cwblhau rhaglen uno ceblau – sy'n golygu:

- Pwyntiau cloddio tua bob 500m lle bydd goleuadau traffig dwy ffordd yn cael eu defnyddio
- Caiff y ceblau eu tynnu i'w lleoliad a'r gwaith uno ei gwblhau (tua 2 y diwrnod)
- Caiff y tyllau eu hail-lenwi a bydd y system reoli traffig yn symud i'r lleoliad nesaf

Bydd trefniadau ar gael i hwyluso mynediad i gerddwyr yn ystod y cau ffyrdd.

Rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd a'ch dealltwriaeth wrth i'r gwaith i wella ansawdd eich cyflenwad trydan fynd yn ei flaen yn eich ardal.

Mae croeso i chi gysylltu â ni ar **info@opusus.co.uk** os oes gennych unrhyw faterion ar unrhyw adeg, ac rydym yn hapus i drafod ymhellach, gan gynnwys yn agos at eich eiddo.

**30/10/2025**